

# Adroddiad Cydraddoldeb Heddlu Gwent 2013



Gellir gwneud y Cynllun hwn ar gael (ar gais) mewn amrywiaeth o fformatau amgen:

Braille  
CD Sain  
PDF

Os hoffech wneud cais am gopi mewn fformat amgen neu i gael crynodeb o'r ddogfen hon mewn iaith ar wahân i Gymraeg neu Saesneg, cysylltwch â ni yn:

Gwasanaethau Pobl,  
Heddlu Gwent,  
Llawr 2,  
Vantage Point,  
Tŷ Coch Way,  
Cwmbrân,  
Torfaen,  
NP44 7HF

Ffôn: 01633 642020

Ffacs: 01633 645503

Minicom: 01633 877574

[www.gwent.police.uk](http://www.gwent.police.uk)

# Cynnwys

---

**1** Cyflwyniad

**2** Ein hymrwymiad i gydraddoldeb

**3** Cefndir

**4** Cynnydd a Chyflawniadau'r Amcanion Cydraddoldeb

**5** Sut i gysylltu â ni

**6** Atodiadau

**7** Rhestr Termiau

# 1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd a wnaethpwyd i ddatblygu materion cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol, yn unol â'r Dyletswyddau Penodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Cyhoeddwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar 6 Ebrill 2012 ac roedd yn nodi blaenoriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth yr heddlu am y 4 blynedd nesaf. Mae Cynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cysylltu'r amcanion hyn â gweithredoedd a chanlyniadau penodol gan roi cyfrifoldeb clir am bob elfen a nodi perchennog pob gweithred a'r amserlen i'w chwblhau. Bwriad pob elfen yw gweithio tuag at fodloni ein dyletswydd gyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Cyhoeddwyd yr Adroddiad Blynyddol hwn fel tystiolaeth y cydymffurfiwyd â'r Cynllun trwy gydnabod y gwaith ardderchog y mae'r heddlu wedi'i gyflawni i brif ffrydio cydraddoldeb trwy ei bolisïau, ei brosesau a'i weithredoedd.

Ym mis Hydref 2010, cyflwynwyd Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol y Sector Cyhoeddus gan y Ddeddf Cydraddoldeb, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Heddlu Gwent, wrth weithredu ei weithredoedd mewnol ac allanol:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waharddwyd gan y Ddeddf
- Gwella cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu

Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yn weithredol i bersonél yr Heddlu ac aelodau o'n cymunedau sy'n rhannu 'Nodweddion Gwarchoddedig'. Mae 9 Nodwedd Warchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb; Oedran, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Hil, Crefydd neu Gred, Rhyw a Chyfeiriadedd Rhywiol.

Er mwyn cynorthwyo cyrff cyhoeddus, mae 'Rheoliadau Penodol' sy'n nodi'n fanylach sut y gallwn weithio tuag at gyflawni bwriadau'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol. Mae Rheoliadau Penodol gwahanol ar gyfer Cymru a Lloegr, a chan nad yw Heddlu Gwent wedi'i ddatganoli, mae gorfodaeth gyfreithiol arnom i fodloni Rheoliadau Lloegr. Fodd bynnag, byddwn ni, fel Heddlu Cymreig sy'n gweithio gyda sefydliadau partner datganoledig, hefyd yn ceisio bodloni gofynion Rheoliadau Cymru lle bynnag fo'n bosibl.

I wneud hyn, bydd Heddlu Gwent yn:

- Cyhoeddi Gwybodaeth Gydraddoldeb blynyddol sy'n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig ein gweithwyr a nodweddion gwarchoddedig y bobl yr effeithiwyd arnynt gan ein polisïau a'n harferion
- Cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb blynyddol sy'n amlinellu sut yr ydym yn bodloni bwriadau'r ddyletswydd gyffredinol a chydabod cynnydd ac effeithiolrwydd tuag at gyflawni pob amcan cydraddoldeb yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn bodloni ein Hamcanion Cydraddoldeb, ac yn asesu effaith ein polisïau a'n hymarferion arfaethedig yn erbyn ein Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol trwy barhau i ddefnyddio ein proses Asesu Effaith Cydraddoldeb

Mae'r ymrwymiad i gydraddoldeb hefyd yn adlewyrchu gwerthoedd cryf Heddlu Gwent sy'n nodi disgwyliadau clir i'n cymuned am y ffordd y darparwn y gwasanaethau mae'n ei ddarparu. Mae tegwch a chydaddoldeb wrth wraidd y gwerthoedd hyn ac maent yn ganolbwynt i bopeth a wnawn wrth blismona. Ein gwerthoedd yw Ymddiriedaeth; Teg; Proffesiynol ac Ymatebol.

Mae'r Bwrdd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cyfarfod bob chwarter ac mae'n gosod yr agenda cydraddoldeb strategol. Cadeirir y cyfarfod gan y Dirprwy Brif Gwnstabl ac mae aelodau'r bwrdd yn cynnwys cynrychiolydd o bob rhwydwaith cymorth. Caiff amcanion cydraddoldeb eu harwain gan un arweinydd strategol a enwebwyd a rhoddir gwybod i'r Dirprwy Brif Gwnstabl am unrhyw ddiweddariadau, llwyddiannau a rhwystrau trwy'r Bwrdd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Mae ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Sengl yn canolbwyntio ar y camau gweithredu hynny a gynlluniwyd er mwyn sicrhau'r canlyniadau cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn ein Cynllun a darparu gwasanaeth gwell. Bwriad y Cynllun Gweithredu yw cael effaith gadarnhaol ar sut rydym yn gwneud ein gwaith o ddydd i ddydd ac roedd pob amcan yn cyfeirio at ei gysylltiad ag un o'r tair thema strategol, (Darpariaeth Weithredol, Pobl a Diwylliant a Phrosesau Sefydliadol) fel y nodir gan Strategaeth Tridarn Hyder, Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yr NPIA.

## Cynnydd a Llwyddiannau'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol

### Amcan 1: Cam-drin Domestig a Thrais sy'n Seiliedig ar Anrhydedd

I sicrhau bod ymateb Heddlu Gwent i gam-drin domestig yn briodol ac yn hygyrch i'r holl gymunedau, gan gynnwys y rheiny a allai wynebu rhwystrau penodol o ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau cam-drin domestig, ac i sefydlu darlun cywir ynghylch nifer y digwyddiadau Trais sy'n Seiliedig ar Anrhydedd a natur y digwyddiadau hyn sy'n digwydd yn ardal Heddlu Gwent.

Darperir yr amcan hwn yn bennaf trwy "Fframwaith Plismona Cam-drin Domestig" yr heddlu. Mae'r Uned Diogelu'r Cyhoedd wedi bod yn datblygu fframwaith perfformiad newydd sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwasanaeth yn ogystal ag ar ddata meintiol. Bydd y gallu i gasglu manylion sy'n ymwneud ag oedran, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hil a chrefydd a hunaniaeth rhywedd unigolyn i hwyluso monitro effeithiol y grwpiau hyn a warchodir cyn gynted â phosibl ar waith yn sgil gweithredu System Rheoli Cofnodion NICHE, a ddisgwyllir yn hwyr yn 2013.

Mae adroddiad mis Medi'n amlinellu'r newyddion cadarnhaol o ran y cynyddiadau yn y datrysiadau a awdurdodwyd am droseddau difrifol a cham-drin domestig. Mae ffocws newydd y Tîm Troseddau Treisgar Difrifol ar gam-drin domestig risg uchel yn cael effaith gyda 60% o achosion yn arwain at gyhuddiad ac mae 80% o'r rhai sy'n cael eu cyhuddo'n cael eu cadw yn y ddalfa. Mae hyn yn gam arwyddocaol a chadarnhaol o ran diogelu dioddefwyr cam-drin domestig.

Mae'r lleihad parhaus yn nifer y troseddau trais difrifol yn rhoi Heddlu Gwent ymysg y 5 Heddlu uchaf yng Nghymru a Lloegr. Rydym wedi bod yn y 5 Heddlu uchaf yn ystod 8 o'r 10 mis diwethaf sy'n adlewyrchiad cadarnhaol ar waith yr Unedau Plismona Lleol a'r strategaeth leihau sydd ar waith.

Mae cyflwyno Galwadau Cynadledda Cam-drin Domestig ar draws yr heddlu'n effeithio ar nodi risg yn gynnar a nodi ad-ddioddefwyr ac ad-droseddwyr. O ganlyniad, mae rhagor o achosion yn symud ymlaen i Gynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth sy'n sicrhau bod mesurau ar waith i amddiffyn a diogelu dioddefwyr.

Gwnaeth gweithredu hyfforddiant DASH (Cam-drin Domestig, Stelcian ac Anrhydedd) amlygu problemau trais yn erbyn menywod a'r angen am strategaeth hyfforddiant cam-drin domestig cenedlaethol. Bwriad yr hyfforddiant hwn oedd gwella adnabod ac ymateb i unigolion sy'n dioddef trais. Cafodd hefyd ei anelu at nodi materion priodas dan orfod a ddatblygwyd i ymgyrch gwybodaeth sensitif yn ddiwyllianol i grwpiau cymuned lleol ar briodas dan orfod a thrais yn seiliedig ar anrhydedd. Hyd yn hyn, mae 1085 o swyddogion yr heddlu a 185 o Swyddogion Cymorth Cymunedol wedi cael hyfforddiant DASH. Darparwyd hyfforddiant Cam-drin Domestig Arbenigol i 7 Swyddog Cyswllt Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol a 2 aelod o Uned Diogelu'r Cyhoedd.

Mae'r heddlu'n parhau i ymgysylltu â chymunedau amrywiol a sefydliadau trydydd parti i ddarparu gwybodaeth am gam-drin domestig, gan gynnwys amrywiaeth o ddewisiadau adrodd. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Heddlu Gwent wedi gweithredu nifer o fentrau hyfforddi, codi

ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid i sicrhau bod pob dioddefwr cam-drin domestig yn cael y lefelau addas o gymorth ac ymchwiliad gwell ar ôl adrodd am ddigwyddiad.

Golyga'r hyfforddiant a roddir i'r Swyddogion Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol y gall dioddefwyr cam-drin domestig o'r un rhyw bellach sicrhau dealltwriaeth well o'u hanghenion a'r math o gymorth y mae arnynt ei angen trwy gydol y broses adrodd, ymchwilio a'r llys. Gall y swyddogion hefyd gyfeirio'r dioddefwyr at asiantaethau perthnasol eraill i gael cymorth. Dyma'r tîm cyntaf o'i fath yng Nghymru. Hyrwyddwyd gwasanaeth y Swyddogion Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol yn y Mardi Gras yn 2012. Darparwyd hefyd weithdai a sesiynau ymwybyddiaeth trwy ddigwyddiadau'r haf megis y Mardi Gras i gymunedau Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol.

Ni chofnodir digwyddiadau cam-drin domestig o'r un rhyw yn llawn. Gallai hyn fod am nifer o resymau, efallai oherwydd yr ofn y byddai rhywun yn cyhoeddi eu bod yn hoyw heb ganiatâd yr unigolyn neu efallai gan y teimlai'r dioddefwyr na fyddent yn cael eu hystyried o ddifri o gymharu â cham-drin rhwng dyn a menyw.

Yn ôl Broken Rainbow, Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol, cafwyd dros 3,000 o alwadau yn 2010. Dywed y grŵp y dengys arolygon bod o leiaf 1 ym mhob 4 unigolyn Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol yn profi cam-drin domestig. Mae Heddlu Gwent yn cynnig cymorth helaeth i ddiodyddefwyr cam-drin domestig ond mae'r gwasanaeth swyddog Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol wedi'i deilwra i gydnabod anghenion a phryderon penodol a wynebir gan rywun sydd mewn perthynas o'r un rhyw.

Golyga'r gwasanaeth hwn y cynigir cymorth ychwanegol i ddiodyddefwyr cam-drin domestig o'r un rhyw o'r funud y maent yn adrodd trosedd. Yn yr un modd ag unrhyw un mewn perthynas agos a chanddynt bryderon am bartner, gall y rhai mewn perthynas o'r un rhyw hefyd ymgeisio am ddatgeliad o dan Gyfraith Clare.

Os yw'r gwasanaeth swyddog Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol yn rhoi'r hyder i ddiodyddefwyr cam-drin domestig o'r un rhyw i adrodd digwyddiad a pharhau â'r broses trwy'r ymchwiliad ac i'r llys, mae'n gam cadarnhaol i fynd i'r afael â'r troseddau ofnadwy hyn.

Rydym yn gweithio tuag at ddarparu gwybodaeth i bob swyddog a staff am gymunedau a allai wynebu rhwystrau penodol i adrodd trosedd yn y cartref a rhoi mynediad i ddiodyddefwyr i'r cymorth addas y gallai fod ei hangen arny'n nhw.

Mae hyfforddiant Trais sy'n Seiliedig ar Anrhydedd wedi'i ddarparu trwy'r adran ddysgu a datblygu i 420 o swyddogion a 124 o staff yn yr heddlu. Darperir rhagor o hyfforddiant yn y maes hwn yn 2013/14. Ar hyn o bryd, codir ymwybyddiaeth o drais sy'n seiliedig ar anrhydedd mewn ysgolion a cholegau trwy'r rhaglen Cyswllt Ysgolion yn y gwersi 'Achubwch Fi' a pheycyn trais sy'n seiliedig ar anrhydedd penodol sydd ar gael i athrawon ei ddefnyddio.

## **Amcan 2: Trosedd Casineb**

I sicrhau bod diodyddefwyr pob math o ddigwyddiadau casineb a throseddau'n cael ymateb priodol gan Heddlu Gwent sy'n adnabod natur agored i niwed yn gynnar, yn rhoi'r cymorth gorau iddynt a chynyddu'r gobaith o erlyniad llwyddiannus.

Darperir yr amcan hwn yn bennaf trwy Gynllun Gweithredu Trosedd Casineb Heddlu Gwent. Gall troseddau casineb, a symbylir gan elyniaeth tuag at gyfeiriadedd rhywiol, trawsrywioldeb, hil, crefydd neu anabledd unigolyn, effeithio ar rai o aelodau mwyaf bregus ein cymunedau. Gall y diodyddefwyr fod yn amharod i roi gwybod am ddigwyddiadau am amrywiaeth o resymau. Gallant wynebu rhwystrau corfforol megis anawsterau cyfathrebu, neu nad ydynt yn hyderus iawn yn yr heddlu oherwydd profiadau neu bryderon blaenorol na roddir y cymorth addas iddynt.

Mae troseddau casineb yn effeithio'n drychinebus ar eu diodyddefwyr, ac yn anffodus mae'r canlyniadau

weithiau'n enbyd. Mae achosion megis achos Stephen Lawrence a Fiona Pilkington a'i merch Frankie Hardwick, yn darlunio'r effaith y gall rhagfarn ac anoddefgarwch gael ar ein cymunedau. I helpu swyddogion a staff ddelio'n effeithiol â digwyddiadau a throseddau casineb, a chefnogi dioddefwyr yn addas, mae Heddlu Gwent wedi cyhoeddi gweithdrefn digwyddiad casineb newydd. Mae troseddau a digwyddiadau casineb wedi'u cynnwys yn y broses asesu risg newydd a lansiwyd ar gyfer digwyddiadau ymddygiadau gwrthgymdeithasol.

Un o'r argymhellion allweddol yng Nghrynodeb Cymru o adroddiad O'r Golwg yng Ngolwg Pawb y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol oedd gweithio mewn partneriaeth i ymateb i aflonyddwch a'i atal ac i rannu arfer effeithiol. Mewn ymateb i Ymholiad y Comisiwn i aflonyddwch sy'n ymwneud ag anabledd, ac mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allanol allweddol, cytunodd 4 Heddlu Cymru ar yr amcan cydraddoldeb uchod ar aflonyddu ar sail anabledd (DRH).

Cytunodd cadeirydd grŵp Amrywiaeth Cymru Gyfan, y cyn Prif Gwnstabl Jackie Roberts (Heddlu Dyfed Powys) i beilota Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth (MARAC) aflonyddu ar sail anabledd yn ardal Heddlu Dyfed Powys er mwyn gallu dyfeisio a defnyddio pecyn cymorth gan bob Heddlu Cymreig. Bwriad hyn oedd darparu gwasanaeth cyson ac effeithiol i ddioddefwyr aflonyddu ar sail anabledd.

Ymrwymiad grŵp Amrywiaeth Cymru Gyfan yw gwneud MARAC yn broses sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr a throseddwyr aflonyddu ar sail anabledd. Bydd yn cysylltu ag asesiadau risg o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol dioddefwyr, yn nodi a yw'r dioddefwyr yn anabl, ac ystyried a allai'r anabledd fod wedi bod yn ffactor o ran pam y mae digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi digwydd.

Mae argymhellion allweddol peilot MARAC aflonyddu ar sail anabledd hyd yn hyn yn cynnwys;

- Mae adnabod yn gynnar yn hanfodol a dylai pob gwasanaeth partneriaeth sicrhau bod ganddo'r systemau gorau posibl ar waith i nodi dioddefwyr aflonyddu ar sail anabledd (dioddefwyr trosedd casineb) yn hytrach nag ymddygiad gwrthgymdeithasol cyn gynted â phosibl.
- Mae gwir angen am broses MARAC i ddelio â materion dioddefwyr risg uchel gelyniaeth mewn modd proffesiynol gydag ymdriniaeth aml-asiantaeth. Fodd bynnag, gallai fod angen ystyried gweithredoedd yn ehangach nag aflonyddwch ar sail anabledd yn unig, gyda'r meini prawf yn adlewyrchu hyn, er mwyn amddiffyn dioddefwyr risg uchel a dargedir oherwydd casineb ynddo'i hun ac atal ailadrodd erledigaeth achosion o'r fath.
- Mae'n hollbwysig nad ydym yn cyfyngu ar farn broffesiynol wrth nodi risg.
- Mae'n hanfodol y defnyddir dogfen asesu risg a chyfeirio generig gan bob gwasanaeth statudol, er mwyn i fesur risg fod yn gyson.
- Mae angen i waith pendant fod yn barhaus, yn sgil cwblhau pecyn cymorth MARAC aflonyddu ar sail anabledd er mwyn trefnu i aelodau allweddol o'r bartneriaeth ymrwymo i MARAC aflonyddu ar sail anabledd o ran presenoldeb, gwneud penderfyniadau a chyda'r gweithredoedd dilynol yn dilyn y MARAC.

Gwnaeth gweithgor MARAC aflonyddu ar sail anabledd Cymru Gyfan gyfarfod ym mis Mawrth 2012 i drafod y datblygiadau a'r canfyddiadau o'r cynllun peilot â'r bwriad o gael cytundeb erbyn mis Medi 2012. Mae system SharePoint aml-asiantaeth ar hyn o bryd yn cael ei datblygu a'i threialu yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd casineb. Ym mis Chwefror 2013, gwnaeth Heddlu Gwent sefydlu Asesiad Risg Dioddefwr ar gyfer pob un sy'n ail-alw, dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol a dioddefwyr trosedd casineb.

Bob chwarter, mae Heddlu Gwent yn adolygu troseddau a digwyddiadau casineb i sicrhau ansawdd ein hymateb i ddigwyddiadau a sut y gwnaethom eu cofnodi. Rydym hefyd bellach yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Eryl y Goron i ddysgu'r gwersi o achosion wrth iddynt symud trwy'r system



cyfiawnder troseddol. Bob chwarter, mae Heddlu Gwent yn cyfarfod â Gwasanaeth Erlyn y Goron a chynrychiolwyr cymunedol i adolygu'r erlyniadau troseddau casineb i ddysgu unrhyw wersi am y cyfleoedd a gollwyd er mwyn i ddiodefwyr troseddau casineb y dyfodol gael y gwasanaeth o'r safon orau posibl.

Cyhoeddir achosion llwyddiannus lle bo'n bosibl ac mae arfer gorau yn y maes hwn wedi cynnwys cyhoeddi achosion ym mhapur newydd y South Wales Argus, Bwletin Troseddau Casineb Cymru Gyfan a gwefan genedlaethol Gweld yn Glir.

Mae Heddlu Gwent yn parhau i ymgysylltu â chymunedau lle awgryma tystiolaeth fod yno ddiffyg ymddiriedaeth neu ni chaiff pob achos ei gofnodi. Sefydlwyd dwy ganolfan gofnodi anabled arall i bobl anabl. Darparodd seminar Troseddau Casineb y Gymuned wybodaeth i dros 70 o gynrychiolwyr cymunedol ym mis Mai 2012 ac mae'r cyswllt yn barhaus trwy gyfarfodydd ffurfiol â nifer o grwpiau e.e. Grŵp Llywio Teithwyr Sipsi Roma Casnewydd sy'n cyfarfod bob yn ail fis, a chyswllt anffurfiol â staff y Tîm Plismona yn y Gymdogaeth. Mae gan swyddog tîm plismona yn y gymdogaeth ym Mrynawr gyswllt rheolaidd gyda'r Gymuned Sipsi/Teithwyr leol ac mae'n cynnal digwyddiadau gyda nhw.

Mae codi ymwybyddiaeth swyddogion a staff yn eu gallu i gydnabod digwyddiadau casineb, ymchwilio i achosion yn llwyddiannus a darparu cymorth effeithiol ac addas i ddiodefwyr yn flaenoriaeth. Mae cam un o'r fenter hyfforddiant troseddau casineb wedi dechrau a rhoddwyd hyfforddiant i staff Ystafell Reoli'r Heddlu a swyddogion rheng-flaen. Cafodd deg Hyrwyddwr Troseddau Casineb hyfforddiant ar sgiliau cyflwyno ac ymwybyddiaeth troseddau casineb ym mis Mehefin 2012. Darparwyd sesiynau gwybodaeth ar droseddau casineb i'r heddlu i gyd trwy'r Hyrwyddwyr Troseddau Casineb hyn yn ystod hydref 2012. Yr adborth a gafwyd gan un aelod o staff oedd; "Dwi wedi delio â nifer o alwadau yn y gorffennol am ddigwyddiadau casineb, ond dwi erioed wedi gwerthfawrogi yn llawn yr effaith ddinistriol y gall y math hwn o drosedd ei chael; bydd y cwrs hwn yn bendant yn fy helpu i ddeall yr effaith honno".

Gwnaeth Uned Plismona Leol Caerffili ffurfio gweithgor gyda Gweithwyr Cymdeithasol lechyd Meddwl wedi'u cymeradwyo i adolygu'r protocol ar y cyd ar gyfer asesiadau S135 yn y gymuned. Dylai hyn helpu'r holl weithwyr proffesiynol i ddeall rolau a chyfrifoldebau'i gilydd a gwella cyfathrebu, â'r bwriad o ddarparu canlyniad gwell i'r unigolyn sydd wir o bwys, sef y diodefwyr. Gellir rhannu'r gwaith hwn yn gyflym â'r pedwar Awdurdod Lleol arall a'r Unedau Plismona Lleol.

Yn rhan o ymrwymiad Heddlu Gwent i wella Ansawdd Gwasanaeth i bob diodefwyr, yn enwedig y rhai sy'n ddiodefwyr troseddau casineb, ychwanegwyd blwch ychwanegol i'r Ffurflen Crynodeb Achos (MG5) i alluogi swyddogion i nodi achos fel achos sy'n ymwneud â throedd casineb a chofnodi'n haws i ba fath o drosedd y mae'n perthyn. Cyn hyn, nid oedd yr un lle ar y ffurflenni MG mewn gwirionedd i dynnu sylw Gwasanaeth Erlyn y Goron at achosion o droseddau casineb. Bydd y newid hwn yn cynorthwyo'r Gwasanaeth i nodi achosion troseddau casineb yn llawer haws er mwyn iddynt gychwyn ar y protocolau sydd ganddynt ar waith a ddyluniwyd i wella'r siawns o gael euogfarn trosedd casineb i'r diodefwyr a hefyd cynyddu pŵer dedfrydu'r llys.

Yn ddiweddar, bu staff o Asiantaethau Gofal a Thrwsio Gwent ar sesiwn ymwybyddiaeth a ddarparwyd gan staff o Heddlu Gwent i gefnogi'r contract 'Target Hardening' a ddyfarnwyd yn gynharach eleni. Roedd y rhaglen yn cynnwys pynciau gan gynnwys: atal troseddau, cam-drin domestig, amddiffyn tystion, troseddau treisgar difrifol a rhywiol, Cydlyniant ac Atal Cymunedol. Gwnaeth alluogi staff i edrych ar y gwaith y mae adrannau arbenigol yn ei gyflawni; cael dealltwriaeth ynghylch pam fod gwaith gofal a thrwsio yn bwysig i ni ag i'r diodefwyr; y sensitifwydd y dylai'r ffitwyr ei ddangos tuag at y diodefwyr yn ogystal â'r hyn i'w wneud ac i'w osgoi wrth ymweld â chleientiaid.

Mae TecSOS (Technical SOS) yn parhau i gael ei ddefnyddio'n gyfleuster galwad brys trwy ffôn symudol sydd ar gael i ddiodefwyr a phobl agored i gam-drin domestig, trais sy'n seiliedig ar anrhydedd, stelcian/aflonyddu a throedd casineb sydd wedi'u hasesu'n 'risg uchel'. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleuster hwn ymysg y staff hynny mewn ffrydiau gwaith sydd efallai am ystyried defnyddio'r ffonau, darparwyd dwy sesiwn wybodaeth gan arbenigwyr allanol yn y maes hwn.

Gwnaeth Heddlu Gwent ac arweinydd cyfiawnder troseddol yr elusen iechyd meddwl Cymreig 'HAFAL' gyfarfod i drafod y fethodoleg briodol ar gyfer asesu lefelau bodlonrwydd a hyder. Gwnaeth manylion prosiectau 'HAFAL' yng Ngwent alluogi ymgysylltiad ag arweinwyr prosiect i ofyn am gymorth wrth nodi mesurau a dulliau addas ar gyfer casglu data o ran lefelau bodlonrwydd a hyder.

Yn rhan o ddatblygiad staff roedd yn ofynnol i'r holl staff cyswllt cyhoeddus gwblhau rhaglen ddysgu 'The Mental Ill Health & Learning Disability Awareness' sy'n seiliedig ar NCALT. Bwriad y rhaglen hon yw darparu cymorth i staff ar ffurf dysgu ymwybyddiaeth gyffredinol i'r rhai a allai ddod i gysylltiad ag unigolion a chanddynt salwch meddwl neu anableddau dysgu. Mae'r e-ddysgu'n cynnwys cyfres o sefyllfaoedd ymarferol a rhagwelir y bydd yn cymryd tua 2 awr i'r dysgwyr ei gwblhau.

Yn rhan o'r Bwrdd Gweithredu Salwch Iechyd Meddwl, gofynnwyd i grŵp o bobl a chanddynt anableddau dysgu am y pethau pwysicaf yn eu barn nhw i swyddogion yr heddlu a staff wybod amdanynt am weithio gydag unigolion a chanddynt anableddau dysgu. Gwnaeth y grŵp nodi y byddai adrannau penodol yn Heddlu Gwent yn elwa ar gael ymwybyddiaeth o anableddau dysgu a bod pethau allweddol y dylent wybod.

Cred y grŵp ffocws mai'r rolau neu'r adrannau pwysicaf i gael ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud ag anableddau dysgu oedd Ystafell Reoli'r Heddlu a Swyddogion Ymholiadau'r Orsaf. Gwnaethpwyd awgrymiadau hefyd gan y grŵp am rolau arbenigol eraill megis Timau Arfau Tanio, y Ddalfa, Cymorth Cymunedol, Trinwyr Cŵn, Grŵp Cymorth, yr Adran Droseddau a Thimau Plismona Cymunedol.

Dyma rai o'r sylwadau a wnaethpwyd yn ystod y grwpiau ffocws;

"Gofynnwch y cwestiynau mewn iaith rwy'n ei deall a byddwch yn amyneddgar gyda fi gan y gallai gymryd amser i mi ateb neu ddweud wrthy ch beth sydd wedi digwydd"

"Siaradwch yn glir ac yn araf a defnyddiwch iaith syml"

"Efallai na allaf ddarllen nac ysgrifennu hyd yn oed os rydw i'n dweud fy mod yn deall yr hyn sydd wedi'i ysgrifennu"

"Dwi angen i chi fy helpu i ymbwyllo"

"Dewch i fy adnabod cyn bod problem er mwyn i mi ymddiried ynoch i siarad â chi os oes rhywbeth yn digwydd"

"Cofiwch os oes gennyf fath penodol o anabledd dysgu, galla i fod yn or sensitif i gyffwrdd neu symbyliad ac ymateb yn wael"

"Byddwn angen i driniwr y ci ei alw i ffwrdd cyn gynted ag y bydd wedi fy nghanfod a dweud wrtha i na fydd yn fy mrifo"

"Cofiwch ba mor frawychus ydych chi yn eich iwniform (grŵp cymorth) gyda'ch holl offer a gallai hyn achosi i mi ymateb mewn modd ymosodol"

"Cofiwch efallai nad wyf yn siarad Saesneg (er enghraifft galla i fod yn defnyddio iaith arwyddion)"

Mae'r Swyddogion Cyswllt Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol ar waith er mis Rhagfyr 2010 i ddarparu cymorth ac arweiniad i ddioddefwyr troseddau casineb Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol. Cynigir y gwasanaeth ychwanegol ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig o'r un rhyw ochr yn ochr â'r cymorth presennol a roddir i ddioddefwyr cam-drin domestig yng Ngwent.

## Amcan 3: PREVENT

Gweithio gyda'r holl gymunedau i leihau i'r eithaf unrhyw effaith negyddol y gall gweithrediadau a gweithgarwch gwrthderfysgaeth ei chael arnynt, a gwella hyder ymhlith cymunedau i roi gwybod am ddigwyddiadau sy'n achosi pryder.

Bwriad agenda PREVENT yr Heddlu yw cynyddu hydwythedd cymunedau i ymgysylltu ag eithafwyr treisgar a'u gwrthsefyll. Bydd hyn yn sicrhau bod strwythurau cymdeithasol yn bodoli gydag arweiniad cryf, ymgysylltiad dinesig, mynegi gwerthoedd a rennir ac ynysu eithafwyr treisgar a'r rhai sy'n rhoi cymorth iddynt. Ar hyn o bryd mae cynlluniau gweithredu clir ar waith ar gyfer Heddlu Gwent a phartneriaid ar draws yr Unedau Plismona Lleol/Partneriaethau Diogelwch Cymunedol o amgylch PREVENT ac adroddir am y cynnydd.

Mae'r cynllun darparu Partneriaeth newydd ar hyn o bryd yn cael ei gynllunio ac mae ar fin cael ei gyhoeddi, ynghyd ag Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn ym mis Gorffennaf 2013. Cynhaliwyd cyswllt â chymunedau Asiaidd ifanc a menywod Asiaidd. Cysylltir â dynion Mwslim ifanc yn rheolaidd trwy Broject Rich Picture (sefydlwyd Project Rich Picture ychydig ar ôl y bomio hunanleiddiol yn Llundain ym mis Gorffennaf 2011 wedi iddi ddod yn glir bod dinasyddion Prydeinig yn cael eu radialeiddio. Y nod yw dod yn fwy rhagweithiol o ran nodi'r rhai a allai gael eu paratoi ar gyfer terfysgaeth a'r rhai sy'n eu paratoi, ac i adnabod lle gallai'r weithred derfysgaeth nesaf ddigwydd) a chânt eu gwahodd i gyfarfodydd cynrychiolwyr cymunedol gyda'r heddlu. Nodwyd arweinwyr Project Shanaz yn Heddlu Gwent, er y caiff y prosiect bellach ei arwain yn gymunedol. Gwnaeth swyddogion hefyd gyfarfod â grwpiau o fenywod Asiaidd yn wythnosol i fynd i'r afael ag unrhyw byrderon ynghylch trosedd ac anrhefn.

Mae gwefan allanol Heddlu Gwent wedi'i ddiweddarau'n llawn gyda deunydd, yn rhan o'r strategaeth gyfathrebu, i ddarparu gwybodaeth hygyrch i gymunedau am Prevent, ei ddiben a gweithgarwch yr Heddlu. Sefydlwyd hyfforddiant partneriaeth a grŵp ymwybyddiaeth ym mis Hydref 2012 fel sylfaen i ymwybyddiaeth prevent.

Darperir hyfforddiant ymwybyddiaeth i weithwyr proffesiynol allweddol y rheng flaen yn gyntaf, cyn y darperir sesiynau cymunedol.

Hyfforddwyd Swyddogion Heddlu Cymuned Ysgolion i ddarparu modiwl ar Herio Eithafiaeth. Mae Herio Eithafiaeth yn rhan o brosiect Cymru'n Cyd-dynnu sy'n hyrwyddo goddefgarwch a pharch ac mae'n cyd-fynd â strategaeth PREVENT y Llywodraeth. Caiff ei ddefnyddio yn ysgolion Gwent dim ond pan fydd swyddogion lleol, Swyddogion Heddlu Cymuned Ysgolion ac athrawon yn teimlo y bydd yn fuddiol. Yn ystod y sesiynau Herio Eithafiaeth, dangosir DVD i'r disgyblion sy'n edrych ar dri thrywydd:

1. Hau hadau eithafiaeth
2. Meithrin eithafiaeth
3. Cywain eithafiaeth

Anogir y disgyblion i fyfyrto ar eu meddyliau, eu barn a'u profiadau eu hunain a chymryd rhan mewn dadl agored.

## Amcan 4: Dalfeydd

Adnabod anghenion penodol pobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn yn y ddalfa'n briodol ac yn hyblyg.

Mae pob cam gweithredu o fewn yr amcan hwn, heblaw am un, wedi'u cwblhau. Mae'r broses Gweithiwyd gyda chymunedau i godi ymwybyddiaeth o swyddogion yr heddlu a staff sy'n gweithio mewn dalfeydd ynghylch anghenion pobl o gefndiroedd amrywiol. Cynhaliwyd grŵp ffocws ym mis Gorffennaf 2012 gyda phobl ifanc. Bellach mae pob swyddog carchar yn cael mewnbwn ar gydraddoldebau a gofynion cymunedau amrywiol. Erbyn hyn mae uned y ddalfa'n cadw dogfennau

mewn amrywiaeth o ieithoedd, mae ganddi fynediad i Linell Iaith i bobl nad Saesneg yw eu mamiaith ac nad oes taflen ar gael yn eu hiaith nhw. Bydd gwelliannau yng ngallu'r heddlu i adolygu a gwella monitro nodweddion gwarchoddedig yn y system ddalfeydd yn eu lle yn sgil gweithredu'r System Rheoli Cofnodion yn 2013/14. Bydd hyn yn cynorthwyo ymhellach o ran cyfrannu at asesiad risg a/ neu ddyluniad gwasanaethau.

## **Amcan 5: Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr**

Cynyddu ymddiriedaeth a hyder Sipsiwn a Theithwyr yn ein gwasanaethau plismona a hybu perthnasoedd cadarnhaol rhwng yr heddlu, Sipsiwn a Theithwyr, a chymunedau sefydlog.

Datblygwyd Llawlyfr Arweiniad i helpu i wella ymddiriedaeth a hyder Sipsiwn a Theithwyr yn ardal Heddlu Gwent. Mae Heddlu Gwent yn cydnabod statws a ffordd o fyw unigryw Teithwyr Romani a Gwyddelig fel grwpiau ethnig gwahanol. Mae'n cadarnhau bod gan Sipsiwn a Theithwyr, yn yr un modd â'r gymuned sefydlog, yr hawl i fywyd sy'n rhydd rhag ofni troseddau, aflonyddwch ac ymddygiad bygythiol. Bydd ymrwymiad Heddlu Gwent yn:

- Darparu ymateb heddlu cyson tuag at Deithwyr/Sipsiwn, Tirfeddianwyr/asiantiaid ac aelodau eraill o'r gymuned sefydlog.
- Ymgynghori â Sipsiwn a Theithwyr yn ogystal â'r gymuned sefydlog wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.
- Ymchwilio'n rhagweithiol i honiadau o drosedd, aflonyddwch ac ymddygiad bygythiol yn eu herbyn.
- Dangos tegwch, ymddygiad agored a thryloyw wrth ymdrin bob tro â Sipsiwn, Teithwyr a'r gymuned sefydlog. Agwedd gyffredinol
- Heddlu Gwent yw bod rhaid cael cydbwysedd rhwng hawliau'r rhai sydd ar y safle a hawliau'r tirfeddianwyr a'r gymdeithas sefydlog wrth ystyried unrhyw safle anawdurdodedig. Mae'n rhaid i swyddogion yr heddlu ymddwyn mewn modd niwtral, gwrthrychol ac agored.

Cynrychiolir Heddlu Gwent yn nigwyddiadau Mis Hanes Teithwyr Sipsiwn Romani. Defnyddir yr Misoedd Hanes fel cyfle i gynyddu ymwybyddiaeth am y diwylliannau amrywiol hyn a'r digwyddiadau a gynhelir trwy gyhoeddi gwybodaeth yn yr heddlu. Mae aelod o'r tîm Cydlyniant Cymunedol yn mynd i grŵp llywio Teithwyr sipsiwn Romani Casnewydd, gwneir cyswllt rheolaidd â theithwyr sefydlog i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau plismona ac mae swyddogion hefyd yn gweithredu ymweliadau cychwynnol i deithwyr dros dro sydd newydd gyrraedd i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau lleol.

## **Amcan 6: Stopio a Chwilio**

Sicrhau bod y gweithgareddau stopio a chwilio'n cael eu cyflawni mewn ffordd sy'n gyfreithlon, yn gymesur, yn anwahaniaethol, ac yn meithrin cysylltiadau cadarnhaol o fewn a rhwng cymunedau a'r heddlu.

Darperir yr amcan hwn yn bennaf trwy Gynllun Gwella Stopio a Chwilio'r heddlu sy'n ceisio darparu canlyniadau yn y 6 maes allweddol canlynol. Mae'n cyfuno gweithredoedd pwysig o 'Gynllun Gwella Stopiadau' blaenorol yr Heddlu ac argymhellion a gafwyd yn ystod ail ymweliad y Tîm Camau Nesaf Asiantaeth Genedlaethol Gwella Plismona (NPIA) i Went ym mis Gorffennaf 2012. Mae hefyd yn cynnwys yr argymhellion a'r arsylwadau o adborth gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi yn sgil ei hymchwiliad o Heddlu Gwent ym mis Chwefror 2013. Y meysydd dan sylw yw:

- Polisi
- Hyfforddiant/Ymwybyddiaeth
- Arweinyddiaeth a Llywodraethu
- Cyfathrebiadau ac Ymgysylltu
- Systemau a Phrosesau
- Gweithio dan arweiniad Gwybodaeth

Mae holl ddata stopio a chwilio a pholisi heddlu presennol, sy'n nodi nodau Heddlu Gwent o ran darparu gwasanaethau plismona yr ymddiriedir ynddynt, sy'n deg, yn broffesiynol ac yn ymatebol trwy ddefnydd effeithiol o bwerau Stopio a Chwilio, ar gael ar adran gyhoeddus gwefan Heddlu Gwent.

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (SCHTh) yn parhau i fod yn gyfrifol am archwilio stopio a chwilio. Mae hefyd yn gyfrifol am y grŵp samplu ar hap (sy'n cynnwys aelodau o'r Grŵp Cynghori Annibynnol) ac mae'n cynhyrchu'r adroddiad gweithgarwch canlynol i'r Comisiynydd a'r Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad yn rhan o'i rôl archwilio. Rhennir yr adroddiad hwn gyda'r Grŵp Cynghori Annibynnol i'w drafod yn rhan o'u rhan hwy yn y broses.

Bydd yr Heddlu'n gweithio ar y cyd â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Grŵp Cynghori Annibynnol i gefnogi eu prosesau monitro a gwerthuso eu hunain a gweithredu'r gwersi a ddysgwyd. Cynhelir arolwg traws swyddogaethol i adolygu'r gweithredu presennol o weithdrefn yr heddlu yn sgil adolygiad cenedlaethol Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi a chyhoeddiad diweddar y gweithdrefnau wedi'u diwygio. Mae system wybodaeth effeithiol ar waith a thrafodir data Stopio a Chwilio yn rhan o gyfarfod perfformiad y Prif Gwnstabl Cynorthwyol ac addaswyd y system wybodaeth ddyddiol i ystyried materion Stopio a Chwilio.

## **Amcan 7: Mynediad ac Ymgysylltu**

Lleihau'r rhwystrau a adnabuwyd fel y rhai y mae pobl yn eu hwynebu wrth geisio mynediad i wasanaethau heddlu trwy gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.

Darperir yr amcan hwn yn bennaf trwy Strategaeth Ymgysylltu Heddlu Gwent a'r cynllun gweithredu a lanswyd ym mis Awst 2012. Rhan allweddol o'r Strategaeth hon yw gwasanaeth gorsaf heddlu symudol gyda rhaglen wedi'i hamserlennu sy'n ymweld â 235 o leoliadau ar draws Gwent. Defnyddir y gorsafoedd symudol i ymgysylltu â phobl mewn digwyddiadau ac yn eu hardal leol. Mae gan y gorsafoedd symudol rampiau a sgriniau teledu i ddarparu ar gyfer gwahanol fathau o anabledd. Mae hyn yn cynrychioli estyniad enfawr i'n cyfleoedd i gyfarfod ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Bu'r adborth yn gadarnhaol iawn ac mae'n glir bod y cyhoedd wir yn gwerthfawrogi presenoldeb gorsafoedd heddlu symudol yn eu cymunedau, a'r cyfle i gyfarfod a siarad am faterion plismona a swyddogion cymorth cymunedol.

Yn ogystal â datblygu gwasanaeth neges destun brys, mae'r heddlu wedi datblygu gwasanaeth neges destun nad yw'n frys i bobl a chanddynt broblemau cyfathrebu, ac mae'r Cynllun Pegasus yn rhan o Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Hygyrchedd. Mae'r Cynllun Pegasus yn rhoi cyfrinair i bobl agored i niwed ei ddyfynnu os oes arnynt angen rhoi gwybod am ddigwyddiad i sicrhau dilysrwydd y galwr. Cynhaliwyd hefyd grwpiau ffocws penodol gyda phobl a chanddynt anableddau dysgu, fforymau Byddar lleol a phobl anabl eraill i gynorthwyo â dylunio gwasanaethau plismona.

Mae Heddlu Gwent am sicrhau yr ymgysylltir â phobl ifanc yn effeithiol i gyfrannu at gryfhau gwasanaethau plismona. Mae Heddlu Gwent wedi datblygu Bwrdd Barn leuenctid ac mae aelodau'r bwrdd eleni wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad am y Polisi Stopio a Chwilio. Mae gan y Bwrdd hwn hefyd dudalen Facebook i ryngweithio â Heddlu Gwent.

Mae rhoi'r wybodaeth blismona a diogelwch cymunedol addas ddiweddaraf i bobl hŷn hefyd yn bwysig. Yn Sir Fynwy, disgwylir i bob tîm ddarparu gwasanaeth gwell i'r agored i niwed a'r henoed.

Hyrwyddwyd y Cyswllt Gwarchod Ar-lein (OWL) hefyd i grwpiau o bobl hŷn yn fodd o gael yr wybodaeth blismona ddiweddaraf i'w hardal. Mae OWL yn system arobryn sydd ar y rhyngwrdd i gefnogi, gweinyddu a grymuso Gwarchod y Gymdogaeth a mathau eraill o gynlluniau gwyllo cymunedol. Mae'n grymuso cymunedau, gwasanaethau gwirfoddol a chyhoeddus gan alluogi pawb i gymryd rhan yn llawn mewn cynlluniau gwarchod gyda'i gilydd. Yn ogystal â'r dulliau cyfathrebu dwyffordd, mae OWL hefyd yn cynnig nifer o nodweddion allweddol eraill, gan gynnwys:

- Gwybodaeth am yr orsaf heddlu leol, Swyddog Heddlu yn y Gymdogaeth / Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'u rhif ffôn swyddfa / symudol os yw ar gael, yn ogystal â chysylltu â gwefannau heddlu a Gwarchod y Gymdogaeth leol.
- Mapiau Troseddau ategu a datblygu mapiau troseddau presennol a ddarperir gan Heddlu Gwent. Mae'r siartiau a grëwyd at ddefnydd OWL yn unig yn defnyddio'r data troseddau swyddogol diweddaraf i ddarparu cymhariaeth weledol o droseddau ar draws ardaloedd gan roi data lleol yn ei gyd-destun a chynnig dealltwriaeth well o dueddiadau troseddu lleol.

Mae'r manteision allweddol yn cynnwys y gallu i anfon rhybuddion a negeseuon trosedd i dderbynwyr trwy ddewis cyfeiriadau, strydoedd, gwarchodfeydd, ardaloedd, wardiau, trefi neu gynlluniau gwarchod unigol, neu gyfuniad ohonynt. Gellir argraffu'r rhain a'u cyflwyno yn bersonol i gymunedau o bobl hŷn/agored i niwed gan gydlynwyr adnabyddus sy'n darparu rhagor o sicrwydd. Pe byddai digwyddiad critigol (llifogydd, ffrwydrad, etc.) gellir anfon negeseuon brys trwy OWL at y cyhoedd trwy ffonau, ffonau symudol, peiriannau ffacs ac e-byst yn yr ardaloedd targed. Mae cyfathrebu â chynifer o bobl â phosibl cyn gynted â phosibl yn hanfodol o ran hyder y cyhoedd ac ni chyfyngir ar OWL o bell ffordd i weithio gyda Gwarchod y Gymdogaeth yn unig. Gellir anfon apeliadau am wybodaeth at y cyhoedd am ddigwyddiadau lleol ac, yn bwysig, gellir rhoi gwybod iddynt am lwyddiannau i helpu lleihau'r ofn o droseddau. Mae OWL yn gwneud Gwarchod y Gymdogaeth yn hygyrch i amrywiaeth eang o bobl. Gellir defnyddio'r system i ymgysylltu â phobl ifanc, herio'r stereoteip mai ar gyfer pobl hŷn yn unig y mae Gwarchod y Gymdogaeth a chynorthwyo i feithrin cysylltiadau rhwng y cenedlaethau mewn cymunedau.

Gwnaeth y Rhaglen Cyswllt Ysgolion, yn enwedig y wers 'Achubwch Fi', ymgysylltu â'r colegau a phrifysgol Casnewydd mewn digwyddiadau'r glas a digwyddiadau amrywiaeth ar y campws gynorthwyo i gynyddu ymwybyddiaeth pobl ifanc Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol am faterion ynghylch ecsbloetio rhywiol a phuteindra. Gwahoddwyd grwpiau sy'n cynnwys pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol i fforwm Diogelwch Cymunedol pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol Gwent.

## **Amcan 8: Recriwtio, Dethol, Camu ymlaen a Chadw**

Creu amgylchedd gwaith cynhwysol a chefnogol sy'n annog ac yn rhoi cymorth i bob aelod o staff ddatblygu a chamu ymlaen. Byddwn yn annog mentrau arloesol i recriwtio personél o grwpiau amrywiol, rhoi cymorth iddynt, rhoi cyfleoedd iddynt gamu ymlaen yn eu gyrfa a'u cadw.

Cyhoeddir data cydraddoldeb cyflogaeth a darpariaeth gwasanaeth yn flynyddol yn fewnol ac yn allanol. Mae'r gwaith yn barhaus i gynyddu data yn y maes hwn a chyflawni dadansoddiad i nodi meysydd o dangynrychiolaeth neu gynrychiolaeth anghyfartal mewn cyflogaeth. Mae casglu a chofnodi data cyson, cywir a chadarn ynghylch gweithwyr o ran data cydraddoldeb nodweddion gwarchodedig yn parhau'n her, fodd bynnag cyflwynir y system gyflogres ac Adnoddau Dynol newydd o fis Gorffennaf 2013 a dylai sicrhau y cesglir data yn llawer mwy effeithiol ar draws nodweddion gwarchodedig. Mae Gweithgor Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall yn dylunio arolwg staff i fonitro cyfeiriadedd rhywiol staff yn gywir, a bydd yn adolygu sut y cesglir ac y gweithredir y data. Ar hyn o bryd rydym ymysg 100 o Gyflogwyr uchaf Stonewall yn genedlaethol.

Mae'r Cynllun Datblygu Potensial Uchel yn chwilio'n weithredol am aelodau o gefndir ethnig du a lleiafrifol, benywod, pobl anabl a swyddogion Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol. Mae Hyrwyddwr Cydraddoldeb Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol hefyd wedi cytuno i gyfarfod â darpar ymgeiswyr sy'n ystyried ymgeisio.

Cynigiodd Cymdeithas Menywod Heddlu Gwent sesiwn cyfweiliad datblygu i swyddogion sydd am ymgymryd â chyfweiliadau dyrchafiadau'r Prif Arolygydd.

Mewn perthynas â Chwnstabiliaid Gwirfoddol, aeth aelod o'r Tîm Cydlyniant Cymunedol i'r Mardi Gras yng Nghaerdydd i ddosbarthu gwybodaeth recriwtio. Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol sy'n gweithio yn ardal Maendy wedi bod i nifer o ffeiriau/grwpiau cymunedau ffydd lleol gyda gwybodaeth/llyfrynnau recriwtio. Roedd gwybodaeth recriwtio ar gael yn nigwyddiad Cydraddoldebau Iechyd a Diogelwch Prifysgol Casnewydd Caerleon, yn Ashiana, y grŵp Menywod Asiaidd a'r Ffair Awtistiaeth a gynhaliwyd yn Stadiwm Cwmbrân.

Datblygwyd Rhaglen Arweinyddiaeth Gweithredu Cadarnhaol Cymru Gyfan, a chynhaliwyd y gyntaf ym mis Mehefin 2012 a chynhaliwyd cwrs arall ym mis Rhagfyr o ganlyniad i'w lwyddiant cychwynnol.

Mae hyfforddi a mentora'n parhau i gael eu datblygu yn rhan o'r rhwydwaith goruchwyliol er mwyn cynyddu gallu ac arbenigedd pobl yn y sefydliad trwy helpu eraill i ddatblygu eu sgiliau, i gynorthwyo â chynnydd gyrfa a chreu staff mwy effeithiol yn y gweithle. Mae rhestr fewnol o hyfforddwyr a mentoriaid ar gael gyda'r heddlu. Yn ogystal â Chynllun Hyfforddi Stonewall a Chynllun Mentora'r British Association of Women Police, cafodd aelodau o'r rhwydweithiau cymorth hyfforddiant hyfforddi er mwyn cynorthwyo i ddarparu hyfforddiant i'r grwpiau lleiafrifol hyn yn yr heddlu. Trefnir hyfforddiant hefyd yn rhan o'r Rhaglen Arweinyddiaeth Gweithredu Cadarnhaol.

Mae Cadeirydd Rhwydwaith Cymorth Anabledd Heddlu Gwent yn Aelod Pwyllgor o'r Gymdeithas Heddlu Anabl newydd. Mae'r Gymdeithas hon yn gorff cenedlaethol sy'n cynrychioli rhwydweithiau staff anabl o Heddluoedd ledled y DU. Y prif fwriad yw hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd i bobl anabl sy'n gweithio i deulu estynedig yr Heddlu. Mae'r Heddluoedd yn cyfarfod bob chwarter ar lefel genedlaethol i rannu arfer gorau ac i drafod materion sy'n effeithio ar swyddogion a staff anabl yr heddlu.

Sefydlwyd Hyrwyddwyr Cydraddoldeb yn yr heddlu ac maent yn gweithio gyda Rhwydweithiau i yrru'r agenda cydraddoldeb a darparu canlyniadau cadarnhaol i'r naw trywydd a nodwyd yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae eu rôl yn cynnwys cydlynu gwaith yr adrannau penodol, y rhwydweithiau cymorth, y Grŵp Cynghori Annibynnol ac i fynd i Fwrdd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Heddlu.

Mae gwaith mewn perthynas â gweithredoedd cadarnhaol yn parhau i fod yn rhan annatod o'n proses recriwtio. Mae recriwtio allanol cyfyngedig yn yr heddlu'n parhau i leihau ein gallu i effeithio ar recriwtio o grwpiau a thangynrychiolir.

Yn ymgyrch recriwtio mewnol diweddar yr heddlu, o'r 186 o ymgeiswyr, roedd 10 ymgeisydd o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig. Er y bydd ymateb o'r fath yn cynorthwyo o ran cynyddu nifer y swyddogion heddlu o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig, bydd yn effeithio'n niweidiol ar rolau eraill yn yr heddlu megis staff yr heddlu, y Cwnstabiliaid Gwirfoddol a'r Cadetiaid. Mewn perthynas â recriwtio staff yr heddlu'n allanol, o'r 74 o ymgeiswyr, gwnaeth 5 ddatgan eu bod o gefndir Du a Lleiafrifoedd Ethnig a gwnaeth pedwar ddatgan eu bod yn anabl.

Bu ychydig o newid yng nghanran y swyddogion benywaidd yn yr Heddlu o gymharu â'r llynedd. (29.9% i 28.59% ar 31.03.12) Roedd Swyddogion Benywaidd Gwent yn cynrychioli 29.9% o swyddogion yr heddlu ar 31 Mawrth 2013. Bydd yr heddlu'n parhau i weithio tuag at gynrychiolaeth o 33% yn y tymor canolig, yn unol â thueddiadau gwasanaeth yr heddlu. Cysylltir ein gallu i gyflawni'r targed hwn â recriwtio swyddogion yr heddlu yn y dyfodol. Fodd bynnag, bu'r heddlu'n llwyddiannus iawn o ran recriwtio swyddogion yr heddlu benywaidd yn y blynyddoedd diwethaf ac ar 31 Mawrth 2013, canran y swyddogion benywaidd oedd 33.67%. Dyma gynnydd bach o ganran swyddogion yr heddlu benywaidd o 32.5% ar 31 Mawrth 2012.

Mae'r heddlu'n dymuno gwella ei niferoedd o swyddogion yr heddlu o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig i 1.63% o'r heddlu. Ar hyn o bryd nifer swyddogion yr heddlu o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig ar 31 Mawrth 2013 yw 1.42%.

Yn hanesyddol, mae staff yr heddlu yn bennaf yn fenywod ac roeddent yn bennaf mewn rolau y tu ôl i'r llenni, sef cymorth ysgrifenyddol a gweinyddol. Ers yn gynnar yn y nawdegau fodd bynnag, mae gwasanaeth yr heddlu wedi cydnabod yr angen i ddenu arbenigedd busnes ychwanegol ar lefelau

gwasanaeth gwahanol, felly mae cyfanswm a mathau'r rolau a gyflawnir gan staff yr heddlu wedi cynyddu. Bu lleihad yn nifer yr uwch swyddi (gradd Prif Swyddog) yn y sefydliad. Fodd bynnag, er bod staff benywaidd yn cynrychioli 58.6% o staff yr heddlu a gyflogir, dim ond 38.5% o uwch swyddi y maent yn eu dal. Mae'n anodd effeithio ar nifer y staff benywaidd ar raddau uwch yn y sefydliad oherwydd y lefel recriwtio isel ar y lefel hon.

Mae'r heddlu'n parhau i gynnal cynrychiolaeth gyfartal fras o Swyddogion Cymorth Cymunedol gwrywaidd a benywaidd. Ar 31 Mawrth 2013, y gyfradd staff gwrywaidd i fenywaidd oedd 51% (gwryw) i 49% (benyw).

Mae'r niferoedd sy'n ymgeisio am OSPRE Sarjant Rhan 1 eleni'n parhau'n isel ac mae cyfradd pasio'r benywod yn debyg i gyfradd y llynedd. Mae cyfraddau pasio menywod a gwrywod wedi cynyddu eleni. Mae niferoedd y swyddogion a oedd yn gymwys ac a ymgeisiodd ar gyfer OSPRE Sarjant Rhan 2 wedi parhau'n isel, a dim ond 15 o ymgeiswyr a wnaeth gymryd rhan yn y ganolfan asesu o gymharu â 42 y flwyddyn flaenorol. Gostyngodd y gyfradd pasio genedlaethol yn sylweddol eleni i 44%, o gymharu â chyfradd pasio gyfartalog o 79% yn y flwyddyn flaenorol. Adlewyrchwyd hyn gan gyfraddau pasio is yn cael eu cyflawni gan swyddogion gwrywaidd a benywaidd Heddlu Gwent.

Gwnaeth nifer y swyddogion a ymgeisiodd am OSPRE Arolygydd Rhan 1 ddilyn y duedd gyffredinol ac roedd ceisiadau gan swyddogion benywaidd a gwrywaidd yn is na'r flwyddyn flaenorol. Roedd y gyfradd pasio'n is eleni i fenywod a gwnaeth cyfradd pasio'r gwrywod gynyddu ychydig. Wrth ystyried y nifer fach o staff benywaidd a safodd yr arholiad (4) ni ellir dadansoddi llawer iawn o'r canlyniadau hyn. Mewn perthynas ag OSPRE Arolygydd Rhan 2, gwnaeth mwy o fenywod cymwys ymgeisio eleni ac roedd pob ymgeisydd benywaidd yn llwyddiannus.

## **Amcan 9: Dysgu, Hyfforddi a Datblygu**

Hyfforddi a datblygu ein gweithlu i gydnabod gwerth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i blismona.

Gwnaeth yr heddlu gynnig y cyfle i staff a swyddogion fynd i sesiwn hyfforddi i bobl fyddar/dall a byddar a gynhelir gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd. Bwriad yr hyfforddiant oedd:

- dysgu am yr effaith y gall byddardod/dallineb byddardod ei chael ar bobl a sut y gall cyfathrebu rhyngddynt a phobl sy'n gallu clywed fod yn effeithiol
- dysgu am natur byddardod a dallineb byddardod a'u heffaith ar gyfathrebu â phobl sy'n gallu clywed a gweld
- cael amlinelliad bras o'r diwylliant byddar a'r amrywiaeth o declynnau cyfathrebu sydd ar gael
- dysgu i ddefnyddio sillafu bysedd sylfaenol ac ystadegau diweddar y DU sy'n ymwneud â byddardod a dallineb byddardod

Yn dilyn Adolygiad y Ddalfa, datblygwyd cwrs swyddogion carchar yr heddlu i gynnwys gwrs am gydraddoldeb a gwahaniaethu yn y ddalfa. Mae Gweithgor Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall yn gweithio gyda dysgu a datblygu i gynyddu mewnbnw troseddau casineb yn rhan o'r Rhaglen Datblygu Dysgu Heddlu Cychwynnol.

Bellach mae proses ar waith sy'n galluogi i ddysgwyr ofyn am addasiadau rhesymol yn rhan o ddigwyddiadau hyfforddiant ffurfiol yn yr heddlu. Diwygiwyd y cyfarwyddiadau ymuno i alluogi'r dysgwr gael y cyfle i ddatgan, yn gyfrinachol, unrhyw broblemau ac i'r heddlu ddarparu addasiadau rhesymol. Gwnaethpwyd ceisiadau am addasiadau rhesymol a gwnaethpwyd addasiadau ym mhob achos.

Mae'r Rhwydwaith Cymorth Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol wedi darparu hyfforddiant i staff Ystafell Reoli'r Heddlu a'r Ganolfan Gyswllt ar gydnabod a delio'n addas â digwyddiadau a throseddau homoffobig. Mae'r Rhwydwaith Cymorth hefyd yn archwilio i ddarparu hyfforddiant troseddau casineb i stiwardiaid ym maes chwaraeon Rodney Parade, Casnewydd i frwydro a delio



gyda chôr-ganu gwahaniaethol.

Ym mis Chwefror 2013, rhoddwyd hysbyseb yn y Gwent Guardian i godi ymwybyddiaeth o gymorth Mynediad at Waith ac annog staff a swyddogion sy'n credu y gallai fod o fudd iddynt gysylltu â nhw. Cefnogwyd y neges gan Gadeirydd y Rhwydwaith Cymorth Anabledd fel a ganlyn, "Mae gen i nam gweledol / clywedol a gwnaeth Mynediad at Waith drefnu archwiliad hygyrchedd yn fy lleoliad gwaith y llynedd. Gwnaethant nodi ffyrdd o wella fy amgylchedd gweithio a gwnaethant ariannu'n rhannol offer arbenigol nad oeddwn i hyd yn oed yn gwybod eu bod yn bodoli. Maent weithiau'n defnyddio eu disgrisiwn i ariannu offer o dan y lwfans o £1,000 felly mae'n werth eu ffonio gan y gallant gynnig cyngor ar gymorth arall sydd ar gael megis archwiliad hygyrchedd y gweithle. Bwriad y cynllun yw grymuso a helpu i sicrhau bod yr amodau'r un fath i bobl anabl ac mae'r broses ymgeisio yn syml iawn".

Defnyddiwyd yr Wythnos Anableddau Dysgu i atgoffa swyddogion a staff o ddifrifoldeb troseddau casineb anabledd, a rhoddwyd ar waith y sesiwn wybodaeth e-ddysgu sy'n seiliedig ar ganfyddiadau ymchwiliad ffurfiol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i aflonyddwch sy'n ymwneud ag anabledd. Mae'r sesiwn wybodaeth yn darparu cipolwg gwerthfawr ar ganfyddiadau'r ymchwiliad a'r gwersi y gallwn oll eu dysgu.

Yn rhan o'n hymrwymiad i ddatblygu'r Gymraeg yn yr Heddlu, mae'r Adran Dysgu a Datblygu, ar y cyd â Choleg Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy a'r GIG, yn parhau i gynnal cyfres o gyrsiau Cymraeg. Nodir y niferoedd sy'n mynd ar y cyrsiau hyn ym mis Medi 2012 yn y siart isod:

Lefel	Niferoedd	Lefel	Niferoedd
Uwch	2	Blwyddyn 4 / Sylfaen 2	1
Blwyddyn 6 / Canolradd 2	2	Blwyddyn 3 / Sylfaen 1	9
Blwyddyn 5 / Canolradd 1	1	Blwyddyn 2 / Mynediad 2	10

## Amcan 10: Anabledd

Cynyddu ymddiriedaeth a hyder pobl anabl yn y gwasanaethau a ddarperir gan Heddlu Gwent a chadw aelodau anabl o staff trwy eu galluogi i gyfranogi a chyfrannu'n llawn trwy fynd i'r afael â rhwystrau yn y gweithle lle y bo'n bosibl.

Cynyddir ymddiriedaeth a hyder pobl anabl yn y gwasanaethau a ddarparwn hefyd trwy'r Amcan Strategol Troseddau Casineb a'r Bwrdd Gweithredu Iechyd Meddwl. Dros y 18 mis diwethaf, bu Heddlu Gwent yn gweithio gyda chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan i ysgrifennu polisi ar gyfer achlysuron pan fydd pobl yn mynd ar goll neu eu bod yn absennol heb fod ar wyliau o sefydliadau iechyd. Mae'r polisi ar hyn o bryd ar y cam ymgynghori.

Mae Uned Plismona Leol Caerffili wedi ffurfio gweithgor gyda Gweithwyr Cymdeithasol Iechyd Meddwl a gymeradwywyd i adolygu'r dull ar y cyd o ddelio ag asesiadau iechyd meddwl cymunedol. Y bwriad yw cynhyrchu model gweithio sy'n addas i bob asiantaeth ond yn bwysicach fyth, sy'n darparu'r gwasanaeth a'r canlyniadau gorau i'r unigolyn sydd wir yn cyfrif, yr unigolyn sy'n cael ei asesu. Ar ôl ei gwblhau, gall y gwaith hwn gael ei weithredu trwy ardal Gwent.

Thema Wythnos Anableddau Dysgu eleni oedd Troseddau Casineb a defnyddiwyd y cyfle hwn gan yr heddlu i atgoffa swyddogion a staff o ddifrifoldeb troseddau casineb. Roedd sesiwn wybodaeth e-ddysgu ar gael i'r holl staff a oedd yn seiliedig ar ganfyddiadau ymchwiliad ffurfiol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i aflonyddwch sy'n ymwneud ag anabledd. Roedd yr ymchwiliad yn archwilio'r ffordd yr oedd heddluoedd yn ymateb i aflonyddwch sy'n ymwneud ag anabledd a throseddau casineb, ac yn benodol edrychwyd ar 10 achos lle cafodd unigolyn anabl anaf difrifol, neu ar adegau yn anffodus y buont farw.

'O'r golwg yng ngolwg pawb' oedd adroddiad terfynol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a ddatgelodd y ffaith fod aflonyddwch yn brofiad cyffredin i bobl anabl, ond mae diwylliant

o anghrediniaeth a methiannau sefydliadol systematig yn ei atal rhag cael ei ddatrys yn effeithiol. Roedd y sesiwn wybodaeth e-ddysgu'n cynnwys gwersi a ddysgwyd o'r achosion hyn, yn ogystal â chanfyddiadau o'r Ymchwiliad sy'n berthnasol i'r heddlu. Mae argymhellion penodol i'r heddlu sy'n seiliedig ar berchnogaeth, hygyrchedd, ymatebolrwydd, cofnodi data ac adnaod troseddau casineb.

Gwnaeth tîm Cydlyniant Cymunedol Heddlu Gwent ddatblygu adnodd i swyddogion wrth iddynt ddelio â phobl a chanddynt un ai anableddau corfforol neu feddyliol neu anawsterau dysgu. Er nad ei fwriad oedd bod yn adnodd cynhwysfawr, mae'n gyfeirnod cyflym i swyddogion yr heddlu a swyddogion cymorth cymunedol sy'n mynd i ddigwyddiadau sy'n cynnwys pobl anabl.

Ar y cyd â Chadeirydd y Rhwydwaith Cymorth Anabledd, gwnaeth yr heddlu godi ymwybyddiaeth am y cymorth sydd ar gael trwy Fynediad at Waith ac anogwyd staff a swyddogion y credant y gallant elwa ar y gwasanaeth hwn i gysylltu â nhw. Mae Mynediad at Waith yn rhaglen y Llywodraeth a ddarperir gan y Ganolfan Byd Gwaith sy'n darparu grant am gymorth ymarferol i'ch helpu i wneud eich swydd. Mae ar gyfer pobl a chanddynt anabledd, cyflwr iechyd neu gyflwr iechyd meddwl. Gwnaeth Cadeirydd Rhwydwaith Cymorth Anabledd Heddlu Gwent sylw ar y cymorth gan nodi, "Mae gen i nam gweledol / clywedol a gwnaeth Mynediad at Waith drefnu archwiliad hygyrchedd yn fy lleoliad gwaith y llynedd. Gwnaethant nodi ffyrdd o wella fy amgylchedd gweithio a gwnaethant ariannu'n rhannol offer arbenigol nad oeddwn i hyd yn oed yn gwybod eu bod yn bodoli. Maent weithiau'n defnyddio eu disgrisiwn i ariannu offer o dan y lwfans o £1,000 felly mae'n werth eu ffonio gan y gallant gynnig cyngor ar gymorth arall sydd ar gael megis archwiliad hygyrchedd y gweithle. Bwriad y cynllun yw grymuso a helpu i sicrhau bod yr amodau'r un fath i bobl anabl ac mae'r broses ymgeisio yn syml iawn".

Gwnaeth yr Heddlu hybu ceisiadau gan swyddogion yr heddlu a chanddynt anabledd i ystyried ymgeisio am y Cynllun Datblygu Potensial Uwch (HPDS). Mae'r HPDS yn rhaglen ddatblygu a anelwyd at gwnstabiliaid a sarjantiaid sy'n dangos potensial eithriadol. Bwriad y cynllun yw hwyluso datblygiad y swyddogion hynny sy'n dangos y potensial uchel, yr awydd a'r ymrwymiad i gyrraedd lefelau uchaf y gwasanaeth. Cynigiwyd arweiniad un i un i'r rhai o grwpiau a thangynrychiolir.

## **Amcan 11: Darpariaethau ar gyfer rhieni**

Sicrhau bod gan swyddogion a staff fynediad at wybodaeth am ddarpariaethau a phrosesau yn y gweithle gan gynnwys beichiogrwydd, absenoldeb mamolaeth a thadolaeth, a dychwelyd i'r gwaith ar ôl absenoldeb mamolaeth. Sicrhau nad yw swyddogion a staff yn cael eu rhoi dan anfantais am eu bod wedi cymryd cyfnod o absenoldeb mewn perthynas â dyletswyddau fel rhiant.

Er mwyn sicrhau nad yw ymgymryd â rolau staff/swyddogion cyfyngedig gan fenywod yn effeithio ar eu datblygiad neu'u cynnydd, caiff rolau cyfyngedig eu monitro trwy'r Bwrdd Rheoli Adnoddau i sicrhau y defnyddir swyddogion yn addas. Ym mis Mawrth 2013, cynhaliwyd ymarfer Chwe Het De Bono gan Gymdeithas Menywod Heddlu Gwent gyda grŵp o fenywod o feysydd a rolau busnes gwahanol yn y sefydliad i archwilio'r gwahaniaeth amlwg rhwng salwch menywod a dynion yn yr heddlu. Nodwyd pedair prif thema y mae'n amlwg bod angen eu hystyried ar y cyd i wneud sefydliad cynhwysol. Y pedwar maes oedd:

1. Diwylliant ac Arweinyddiaeth Sefydliadol
2. Cymorth i Staff
3. Polisi a Gweithdrefnau
4. Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth i Oruchwylwyr

Un o'r meysydd a drafodwyd, a allai effeithio ar allu'r rheolwyr llinell i sicrhau y rhoddir cymorth addas i fenywod yn y gwaith, oedd y ffaith y gallai menywod ei chael yn anodd i gael sgysiau meddygol personol neu drafod pryderon gofal plant â'u rheolwyr llinell, sy'n parhau yn bennaf yn ddynion. O ganlyniad fe argymhellwyd bod menywod yn cael goruchwylwyr benywaidd y gellir ei henwebu i gynnig cymorth mewn cyfarfodydd dychwelyd i'r gwaith a chysylltu â rheolwyr llinell yr aelod staff i sicrhau bod pob mater yn cael ei gydnabod ac y delir ag ef yn effeithiol.

Teimla'r grŵp fod gweithio hyblyg yn faes arall i'w ddatblygu. Trafodwyd hyn nid yn unig o bersbectif trefniadau ffurfiol staff, ond hefyd o bersbectif cael rhywun i weithredu'n seinfwrdd yn gynnar cyn i unrhyw gyfarfod ffurfiol gael ei gynnal. Gallai'r unigolyn hwn yn naturiol gysylltu â'r swyddog / aelod staff pan mae ar gyfnod mamolaeth a thrwy hynny cefnogi dychweliad yr unigolyn i'r gwaith.

Dangosodd yr adborth y teimlai staff benywaidd fod angen cymorth ehangach i'r rheini ar gyfnod mamolaeth. Roedd amgyffred bod menywod yn 'diflannu' o'r sefydliad am y cyfnod estynedig hwnnw ac y teimlent eu bod wedi colli cysylltiad â'r sefydliad ar y cyfan. Awgrymwyd y byddai cymorth a chynhwysiant mwy cadarn yn lleihau'r niferoedd a fyddai'n sâl yn sgil cyfnod mamolaeth. I'r rheini sy'n dychwelwyd, roedd angen rhagor o gymorth a dealltwriaeth yn y gweithle, a chael lleoedd i dynnu llaeth yn breifat a'r anghenion sy'n ymwneud â hyn oedd un maes. Roedd yr angen am gyfarfod dilynol â staff wrth iddynt dychwelyd i'r gwaith a diffyg adolygiadau gwaith hyblyg hefyd wedi cyfrannu at fenywod yn teimlo'n arunig ac yn euog. Ailadroddir yr ymarfer hwn gyda grŵp o oruchwylwyr gwrywaidd er mwyn deall y materion o'u safbwynt nhw yn ogystal.

## **Amcan 12: Sefydlu cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy ein polisïau, ein gweithdrefnau a'n prosesau**

Datblygu ein diwylliant i sefydlu egwyddorion cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn, gan gydnabod a pharchu gwerthoedd unigolion a gwahaniaethau pobl.

Mae cwblhad yr asesiadau effaith cydraddoldeb yn rhan o gyfarfodydd y Bwrdd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a bydd yn parhau'n offer i nodi gwahaniaethu posibl mewn polisïau, gweithdrefnau a gwasanaethau ac mae'n parhau'n weithred o dan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Cyflawnwyd asesiadau effaith cydraddoldeb mewn perthynas â'r polisïau, gweithdrefnau ac adolygiadau'r heddlu canlynol:

- Rheoli Cofnodion – Gweithdrefn Marwolaethau Amheus (Cadw Papurau Achosion ac Arddangosion)
- Y Polisi Trwyddedu
- Rheoli Dilyn Cerbydau
- Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd – Gweithdrefn Datgelu
- Gweithdrefn Meddiannu Cell
- Hysbysiad Cosb ar gyfer Gweithdrefn Anrhefn
- Gwersylloedd Sipsiwn/Teithwyr/Anawdurdodedig
- Adolygiad y Ddalfa
- Adolygiad o Weinyddiaeth Cyfiawnder

Cyhoeddir pob polisi, gweithdrefn ac asesiad effaith cydraddoldeb yn allanol ar adran gyhoeddus mewnwyd Heddlu Gwent.

Mae Heddlu Gwent yn parhau i weithio i osod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein prosesau caffael, tendro, dyfarnu contractau a rheoli contractau. Bydd hyn yn ein hamddiffyn rhag y risg o ymgysylltu â sefydliadau partner nad ydynt yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb ac osgoi bod ein staff ein hunain yn agored i amgylcheddau gweithio gwahaniaethol. Mae asesiadau effaith cydraddoldeb yn cael eu cyflawni ar gyfer pob contract perthnasol ac maent wedi'u gosod i'r broses dendro ac aethpwyd i'r afael â gweithredoedd perthnasol. Mae cwestiynau yn yr holiadur cyn-gymhwyso'n cael eu hadolygu i sicrhau ein bod yn dal gafael yn llawn ar ofynion y Ddeddf Cydraddoldeb ac ychwanegir cwestiwn penodol am bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol i'r holiadur hwn a bydd yn ofynnol i gyflenwyr nodi a oes ganddynt bolisi Cydraddoldeb. Yn rhan o'n proses rheoli contract, caiff polisïau sy'n ymwneud â chydaddoldeb eu hadolygu bob deuddeg mis. Bydd hefyd yn ofynnol i gyflenwyr ddarparu diweddiariad i sicrhau y cydymffurfir â'r Ddeddf. Bydd Gweithgor Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall yn ystyried ffyrdd i ddatblygu ymhellach y broses gaffael a rheoli perthynas cyflenwyr, yn seiliedig ar adborth gan ein cyflwyniad diweddaraf i Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall.

Nodwyd Hyrwyddwyr Amrywiaeth yn yr heddlu gyda'r bwriad o hyrwyddo amgylchedd gweithio cadarnhaol lle caiff staff eu trin yn deg a chyda pharch, ac i annog staff i chwarae rôl o ran creu amgylchedd lle deallir bod aflonyddwch, bwlio ac erledigaeth yn ymddygiad annerbyniol. Crëwyd Hyrwyddwyr Amrywiaeth i gynrychioli'r nodweddion gwarchoddedig/meysydd canlynol:

- Rhyw
- Oedran
- Anabledd
- Beichiogrwydd, Mamolaeth a Gweithio Hyblyg
- Cyfeiriadedd Rhywiol, Priodas a Phartneriaeth Sifil ac Ailbennu Rhywedd
- Hil a (Trosedd Casineb)
- Crefydd neu Gred
- Y Gymraeg
- Iechyd Meddwl

Ar hyn o bryd mae gan Heddlu Gwent bedwar Grŵp Rhwydwaith Gweithwyr; Rhwydwaith Cymorth Anabledd Heddlu Gwent (GPDSN), Cymdeithas Heddlu Duon Gwent (GBPA), Cymdeithas Menywod Heddlu Gwent (GWPA) a Rhwydwaith Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGB&TN). Cynrychiolir pob rhwydwaith cymorth ar Fwrdd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Heddlu ac maent yn parhau i fod yn weithredol yn yr heddlu.

Mae'r rhwydwaith pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol yn parhau'n weithredol ac mae Heddlu Gwent yn parhau ymysg y 100 cyflogwr uchaf ar Fynegai Cydraddoldeb Stonewall. Sefydlwyd Gweithgor Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol gyda'r bwriad o gynyddu safle'r heddlu ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall. Mae'r Gweithgor yn cynnwys aelodau o adrannau sy'n gweithio yn y meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys Caffael, Gwasanaethau Pobl, Dysgu a Datblygu a'r Rhwydwaith cymorth Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol. Trefnwyd cyfarfodydd bob yn ail fis a rhoddir diweddariadau misol i'r aelod tîm sy'n bwynt cyswllt a fydd yn bwydo'r dystiolaeth yn uniongyrchol i gyflwyniad eleni. Yn rhan o Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle, anogwyd staff trwy'r Gwent Guardian i gymryd rhan yn Holiadur y Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle.

Mae aelodau rhwydwaith yn mynd i ddigwyddiadau a chynadleddau rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau y cânt yr wybodaeth am y materion sy'n codi a'u bod yn dod ag arfer gorau i'r heddlu. Aeth aelod Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol i Gynhadledd Stonewall Cymru yng Nghaerdydd a ddaeth â gweithwyr proffesiynol o bob cwr o Gymru ynghyd i rannu gwybodaeth am sut y mae pob cwmni neu sefydliad wedi cyflawni llwyddiant o ran materion Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol. Bu Cymdeithas Heddlu Duon Gwent yng nghynhadledd Genedlaethol y Gymdeithas Heddlu Duon yn 2012.

Mae'r cynllun Swyddog Cyswllt Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol yn cynnig cymorth i ddioddefwyr a thystion sy'n rhan o ddigwyddiadau a throseddau casineb homoffobig, bi-ffobig a thraws-ffobig yn ogystal â cham-drin domestig. Mae'r cynllun yn weithredol ers ychydig dros ddwy flynedd ac mae ar hyn o bryd 24 o Swyddogion Cyswllt (swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu) sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol yn y maes hwn. Mae ganddynt hefyd gysylltiadau ag asiantaethau cymorth lleol. Gweithredir y cynllun gan y Rhwydwaith Cymorth Staff Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol a chaiff ei gydlynw gan Gydylliant Cymunedol.

Crëwyd y cynllun oherwydd bod gan y gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol lefel isel o ffydd isel yn yr heddlu. Ers y cyflwynwyd y cynllun, bu cynnydd yn nifer y digwyddiadau a adroddwyd amdanynt oherwydd bod ffydd y gymuned yn yr heddlu'n tyfu. Er mwyn sicrhau y cefnogir dioddefwyr, ni chaiff y mathau hyn o ddigwyddiadau eu cau oni bai y cynigiwyd cyfeirio'r dioddefwr i'r Cynllun Swyddog Cyswllt.

Codwyd ymwybyddiaeth am amrywiaeth trwy erthyglau ar fewnwyd yr Heddlu a'r Gwent Guardian. Mae erthyglau o'r fath yn darparu gwybodaeth am anableddau, Cam-drin Domestig, mis hanes

Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol a mis hanes Sipsiwn, Romani a Theithwyr.

Darparwyd cynllun peilot Rhaglen Arweinyddiaeth Gweithredu Cadarnhaol Cymru Gyfan ym mis Mehefin. Anelir y rhaglen at aelodau o bersonél Heddlu Gwent o grwpiau a thangynrychiolir hyd at a chan gynnwys gradd Arolygydd neu gyfwerth o ran Staff yr Heddlu. Dyma'r weithred gynhwysfawr, gadarnhaol gyntaf sydd ar gael i bob swyddog a staff o grwpiau a thangynrychiolir yn rhan o fenter gydweithio rhwng Heddluoedd De Cymru. Darparwyd y rhaglen ddysgu gymysg dros 3 diwrnod a chafodd ei rheoli gan 7 modiwl a chanddynt nodau penodol.

Y modiwlau hyn yw:

- Modiwl 1 - Sylfaen Gweithred Gadarnhaol**
- Modiwl 2 - Hunan ymwybyddiaeth ac Arweinyddiaeth Bersonol**
- Modiwl 3 - Arweinyddiaeth a Brandio Personol**
- Modiwl 4 - Cyfathrebu, Pendantsrwydd a Dylanwadu**
- Modiwl 5 - Mentora, Hyfforddi a Rhwydweithio**
- Modiwl 6 - Dysgu Gweithredol**
- Modiwl 7 - Camau Nesaf a Datblygu Gyrfa**

Cynhwysir ymyriadau hyfforddi un i un cyn ac ar ôl y cwrs yn rhan o'r rhaglen, yn yr un modd â chyfleoedd i gynrychiolwyr ddod ynghyd yn dilyn y rhaglen yn rhan o Setiau Dysgu Gweithredol.

Cynhaliwyd y cwrs cyntaf ym mis Mehefin 2012 a bydd cyrsiau eraill yn parhau i gael eu darparu o ganlyniad i'w lwyddiant cychwynnol. Bwriad y cwrs arweinyddiaeth bersonol 3 diwrnod rhyngweithiol yw grymuso, datblygu a chefnogi staff o grwpiau lleiafrifol ar draws y nodweddion gwarchoddedig, Oedran, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Hil, Crefydd neu Gred, Rhyw a Chyfeiriadedd Rhywiol.

Cynhaliwyd cyflwyniad ar y Cynllun Datblygu Potensial Uwch a chroesawyd diddordeb yn y cynllun yn benodol gan grwpiau a thangynrychiolir ar raddau uwch, megis Swyddogion Duon a Lleiafrifoedd Ethnig, Swyddogion Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol, swyddogion benywaidd a swyddogion anabl. Gwnaeth aelod o Gymdeithas Heddlu Duon Gwent gysylltu ag arweinwyr uwch yn yr heddlu i ofyn iddynt nodi a chysylltu'n rhagweithiol ag ymgeiswyr addas o grwpiau lleiafrifol i ystyried ymgeisio am y cynllun. Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer anabledd trwy'r camau ymgeisio. Cysylltwyd hefyd â phob rhwydwaith yn yr heddlu a gofynnwyd iddynt godi ymwybyddiaeth o'r cyfle hwn i aelodau eu rhwydwaith. Rhoddwyd gwybod i'r rheini o grwpiau a thangynrychiolir nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y sesiwn wybodaeth ond bod ganddynt diddordeb mewn ymgeisio am y cyfle i siarad â swyddog cyswllt y Cynllun Datblygu Potensial Uwch neu aelod o'u rhwydwaith cymorth i gael arweiniad. Rhoddwyd hefyd y cyfle i unrhyw un a gysylltodd â'u rhwydwaith cymorth siarad â hyfforddwr neu fentor i'w cynorthwyo gyda'u cais. Ar hyn o bryd, mae gan yr heddlu un swyddog benywaidd a dau swyddog gwrywaidd ar y Cynllun ac mae un ohonynt o gefndir Du a Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae Rhaglen Menywod Springboard yn parhau i fod ar gael i alluogi menywod i gymryd rhagor o reolaeth dros eu bywydau eu hunain trwy nodi'r camau clir, ymarferol a realistig y maent am eu cymryd a datblygu'r sgiliau a'r hyder i'w cymryd.

Mae Heddlu Gwent yn parhau i ddefnyddio symbol dau dic anabledd. Mae'r symbol yn dangos bod y sefydliad yn gadarnhaol o ran cyflogi pobl anabl. Dyfernir y symbol gan y Ganolfan Byd Gwaith i gyflogwyr sydd wedi ymrwymo i recriwtio, cadw a datblygu galluoedd staff anabl.

Nodwyd talent aelod o staff yr heddlu a chanddo nam gweledol a chlywedol yn yr heddlu. Trwy gymorth ei reolwr llinell, gwaith caled a phenderfyniad yr unigolyn a chymwysterau proffesiynol perthnasol a ariannwyd yn llawn gan yr heddlu, mae bellach yn gyfreithiwr cymwysedig i Heddlu Gwent.

# Sut i Gysylltu â Ni

**Gwasanaethau Pobl,  
Heddlu Gwent,  
Llawr 2,  
Vantage Point,  
Tŷ Coch Way,  
Cwmbrân,  
Torfaen.  
NP44 7HF**

Ffôn: 01633 64 20 20  
Ffacs: 01633 64 55 03  
Minicom: 01633 87 75 74

[www.gwent.police.uk](http://www.gwent.police.uk)

**Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu,  
Pencadlys Heddlu Gwent,  
Croesyceiliog,  
Cwmbrân  
NP44 2XJ**

Ffôn: 01495 64 22 00

Ebost: [commissioner@gwent.pnn.police.uk](mailto:commissioner@gwent.pnn.police.uk)

[www.gwent.pcc.police.uk](http://www.gwent.pcc.police.uk)

**Uned Safonau Proffesiynol,  
Heddlu Gwent,  
Caerleon House,  
Mamhilad Park Estate,  
Pontypool.  
NP4 0XX**

Tel: 01495 74 53 72

**Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ( EHRC) – Swyddfa Cymru  
3ydd Llawr,  
3 Sgwâr Callaghan,  
Caerdydd.  
CF10 5BT**

Ffôn: 0845 604 8810 (llinell gymorth)  
0845 604 8820 (llinell gymorth ffôn testun)

029 2044 7710 (galwadau nad ydynt i'r llinell gymorth yn unig)

0845 604 8830 (ffacs y llinell gymorth)

029 2044 7712 (ffacs heb fod y llinell gymorth)

Ebost: [wales@equalityhumanrights.com](mailto:wales@equalityhumanrights.com)

# Atodiadau

## Atodiad 1: Amcanion Cydraddoldeb

1. Byddwn yn sicrhau y caiff ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl, ein dyletswyddau cydraddoldeb a'n cynllun gweithredu eu cyfleu, eu gweithredu a'u hyrwyddo gan arweinydd dynodedig o fewn Ardaloedd Gwasanaeth ac Adrannau. (Pobl a Diwylliant)
2. Byddwn yn monitro ac yn adolygu cynnydd ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl a'n Cynllun Gweithredu er mwyn cynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein meysydd gwaith gweithredol a chymorth allweddol. (Pobl a Diwylliant, Darpariaeth Weithredol)
3. Byddwn yn hyrwyddo diwylliant cynhwysol sy'n trin personél Heddlu Gwent a chymunedau amrywiol gydag urddas a pharch, mewn perthynas â'u hawliau dynol. (Pobl a Diwylliant, Darpariaeth Weithredol)
4. Byddwn yn creu amgylchedd gwaith sy'n cefnogi pobl i ddatblygu a chynyddu hyd eithaf eu gallu. Cefnogi personél Heddlu Gwent i fagu dealltwriaeth o'n cymunedau amrywiol fel y gallwn gyflawni amcanion ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl. (Pobl a Diwylliant)
5. Byddwn yn ymgysylltu â phersonél a chymunedau amrywiol Heddlu Gwent ac yn ymgynghori â hwy er mwyn deall eu hanghenion ac ymateb iddynt. (Pobl a Diwylliant, Prosesau Sefydliadol)
6. Byddwn yn sicrhau bod pob un o bersonél Heddlu Gwent a phob aelod o'r gymuned, gan gynnwys grwpiau lleiafrifol, grwpiau dan anfantais, grwpiau sy'n agored i niwed a grwpiau eithriedig yn gallu cael gafael ar safleoedd, gwybodaeth, gwasanaethau a swyddogaethau Heddlu Gwent. (Darpariaeth weithredol)
7. Byddwn yn annog mentrau arloesol i recriwtio, cefnogi a chadw personél o grwpiau amrywiol. (Pobl a Diwylliant)
8. Byddwn yn monitro ac yn cyhoeddi ein data cyflogaeth a darpariaeth o wasanaethau. (Prosesau sefydliadol)
9. Byddwn yn cynnal asesiad effaith, yn ymgynghori ar ac yn monitro canlyniadau tebygol a gwirioneddol ein polisïau a'n harferion ar grwpiau amrywiol. Cyhoeddir canlyniadau'r asesiadau effaith hyn. (Prosesau sefydliadol)

## Atodiad 2: Data Cyflogaeth Mewnol - [DataCyflogaethMewnol\\_2012-2013.pdf](#)

## Atodiad 3: Data Cydraddoldeb Allanol - [DataCydraddoldebAllanol\\_2012-2013.pdf](#)

# 7 Rhestr Termau

<b>ACPO</b>	Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu.
<b>Addasiadau Rhesymol</b>	Y camau rhesymol y mae angen i gyflogwyr eu cymryd i sicrhau nad yw cyflogeion ag anabledd dan unrhyw anfantais sylweddol. Gallai addasiadau gynnwys darparu hyfforddiant ychwanegol, cymhorthion ategol a newid patrymau sifft.
<b>Aflonyddwch</b>	Ymddygiad digroeso gyda'r bwriad o effeithio ar urddas rywun arall neu greu amgylchedd bygythiol, anghyfeillgar, diraddiol, bychanol neu ymosodol i'r unigolyn hwnnw.
<b>Ailbennu Rhywedd</b>	Yn ymddangos fel, yn awyddus i gael ei adnabod fel, neu wedi cael llawdriniaeth i fod yn aelod o'r rhyw arall.
<b>Amrywiaeth</b>	Parchu gwahaniaethau pobl.
<b>Bwrdd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth</b>	Cyfarfod sy'n pennu cyfarwyddyd strategol pob mater sy'n ymwneud ag Amrywiaeth a Chydraddoldeb i'r Heddlu.
<b>Cydraddoldeb</b>	Cyfle cyfartal i bawb.
<b>EHRC</b>	Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
<b>EIA</b>	Assesiad Gwrthdrawiad Cydraddoldeb
<b>Economaidd-gymdeithasol</b>	Ymhlith y ffactorau economaidd-gymdeithasol mae'r profiadau a'r gwirioneddau sy'n helpu i ffurfio personoliaeth, agweddau a ffordd o fyw unigolyn. Gall y ffactorau hefyd ddiffinio rhanbarthau a chymdogaethau. Er enghraifft, mae heddluoedd (ac Awdurdodau'r Heddlu) yn cydnabod bod ffactor economaidd-gymdeithasol tlodi yn gysylltiedig ag ardaloedd sydd â chyfraddau troseddu uchel.
<b>Erledigaeth</b>	Trin rhywun yn annheg (yn ymwneud yn benodol â phobl sydd wedi gwneud cwyn neu wedi cynnal trafodion tribiwnlys mewn ewyllys da).
<b>Grŵp Cynghori Annibynnol (IAG)</b>	Grŵp sy'n cynnwys aelodau'r gymuned sy'n rhoi cyngor ac yn gwneud argymhellion i asiantaethau gorfodi'r gyfraith.
<b>Gweithredu Cadarnhaol</b>	Ystod o fesurau a mentrau datblygu i helpu pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, lle maent wedi'u heithrio neu eu bod dan anfantais yn hanesyddol.
<b>HMIC</b>	Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi.
<b>LPU</b>	Uned plismona lleol.
<b>Mynediad at Waith</b>	Mae Mynediad at Waith yn rhaglen y Llywodraeth a ddarperir gan y Ganolfan Byd Gwaith sy'n darparu grant am gymorth ymarferol i'ch helpu i wneud eich gwaith. Fe'i hanelwyd at bobl a chanddynt anabledd neu gyflwr iechyd neu iechyd meddwl.
<b>Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall</b>	Dyma werthusiad ystyrion o sut y mae'r Heddlu'n gweithredu o ran materion lesbiaidd, hoyw a deurywiol.
<b>Nodwedd Gwarchodedig</b>	Terminoleg newydd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 i nodi "sail" y ceir diogelwch yn erbyn gwahaniaethu mewn sawl ffordd. Ymhlith y 'nodweddion gwarchodedig' mae hil; rhyw; anabledd; oedran; tueddfryd rhywiol; crefydd neu gred (yn cynnwys diffyg cred); beichiogrwydd a mamolaeth; ailbennu rhywedd a phriodas a phartneriaeth sifil.
<b>NPIA</b>	National Policing Improvement Agency.



<b>Rhwydweithiau Cymorth</b>	Grŵpiau Cymdeithasau sy'n darparu cymorth i bersonél Heddlu Gwent o grŵpiau amrywiol. Grŵpiau Cymorth yn Heddlu Gwent yw'r Rhwydwaith Cymorth Anabl (DSN), Cymdeithas Heddlu Duon Gwent (GBPA), Cymdeithas Menywod Heddlu Gwent (GWPA) a'r Rhwydwaith Cymorth Hoyw (GSN).
<b>Trais sy'n Seiliedig ar Anrhydedd</b>	Mae trais sy'n seiliedig ar anrhydedd yn drosedd neu'n ddigwyddiad treisgar a allai fod wedi'i gyflawni i warchod neu amddiffyn anrhydedd y teulu neu'r gymuned.
<b>Trosedd Casineb</b>	Unrhyw ddigwyddiad, sy'n cyfrif fel trosedd, ac a ysgogir gan ragfarn neu gasineb ym marn y dioddefwr neu unrhyw un arall.
<b>Yn Agored i Niwed (dioddefwr neu dyst)</b>	Yn cynnwys a) pob tyst sy'n blentyn (o dan 17 oed) b) unrhyw dyst y mae ansawdd ei dystiolaeth yn debygol o gael ei leihau am ei fod yn dioddef o anhwylder meddyliol, bod ganddo nam sylweddol ar ei ddeallusrwydd neu ei ffordd o gymdeithasu (e.e. anabled dysgu) neu bod ganddo anabledd corfforol neu ei fod yn dioddef o anhwylder corfforol.

